

Sut i greu mannau gwyrdd trefol cynaliadwy yn eich ardal chi

02/11/2022



Parks for Health project in Camden and Islington in tip four. Credit: Islington Council

Mae'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn ein partneriaeth parciau arloesol yn rhannu eu cyngor ar gyfer adweithio mannau gwyrdd er budd pobl a natur.

Fe wnaethom ddathlu diwedd ein rhaglen tair blynedd [Future Parks Accelerator \(FPA\)](#) fis diwethaf gyda chynhadledd ar-lein Naturally Vitaling, gan rannu'r hyn a wnaethom ei ddysgu o'r prosiectau.

Mae rhaglen FPA, a lansiwyd yn 2019, wedi dangos gwerth buddsoddi mewn parciau a mannau gwyrdd trefol yn llwyddiannus ac wedi helpu awdurdodau lleol i gynyddu manteision eu treftadaeth naturiol.

Mae staff o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r fenter wedi cymryd y dysgu helaeth o FPA i gyd-greu 10 casgliad pwysig i helpu eraill i wella'r defnydd o fannau gwyrdd mewn amgylchedd trefol.

Mae yna gyfoeth o brofiad ac enghreifftiau cadarnhaol ac ysbrydoledig i rannu a dysgu ohonynt.

Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dyma'r 10 argymhelliad

1. Adnabod eich ystâd werdd

- Beth yw ei gyflwr presennol a photensial i bobl, lle, hinsawdd a natur yn y dyfodol?
- Gweithredu: ymchwilio a dadansoddi graddau, cyflwr, cysylltedd, defnydd, incwm a gwariant. Mae'r wybodaeth waelodlin hon yn sylfaen hanfodol.

2. Bod yn uchelgeisiol am gyfiawnder amgylcheddol

- Beth yw'r gwelliannau systemig mwyaf angenrheidiol i fannau gwyrdd er mwyn gwella ansawdd bywyd pawb?
- Gweithredu: defnyddiwch ddata amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd i fapio a mynegai ansawdd amgylcheddol lleol trefol. Nodwch y blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer 'twf' seilwaith gwyrdd a'r budd o gymryd dull systemau integredig. Dysgwch fwy am yr [adnodd cyfiawnder amgylcheddol](#).

3. Sicrhau bod mannau gwyrdd yn ganolog i fywyd cymunedol lleol

- Beth sydd ei angen ar eich cymunedau a sut maen nhw am fod yn rhan o bethau?
- Gweithredu: gofynnwch i gymunedau a'r sector menter gymunedol a chymdeithasol gwirfoddol beth sydd ei angen arnynt o fannau gwyrdd a'r hyn y gallant ei gyfrannu i'w actifadu a chynyddu eu budd i gymunedau.

4. Rhoi iechyd wrth galon strategaeth a chynlluniau mannau gwyrdd

- Sut y gellir gwneud y gorau o brif bwrpas a budd gofod gwyrdd trefol yn yr 21ain ganrif?
- Gweithredu: partneru gyda sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a menter gymunedol a chymdeithasol gwirfoddol i uwchraddio eich mannau gwyrdd fel asedau iechyd cyhoeddus a chyd-greu darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys [rhagnodi gweithgareddau a phrosiectau sy'n seiliedig ar natur](#).

5. Tyfu eich rhwydwaith natur trefol

- Sut allwch chi wella'r budd y mae natur yn ei roi i lesiant a gwydnwch hinsawdd pobl?
- Gweithredu: archwilio'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan y cynefinoedd rhyng-gysylltiedig yn eich ardal drefol. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth adnabod atebion a gwelliannau i dyfu'r rhwydwaith a gwella ansawdd, cysylltedd a hygyrchedd.



Gweithgareddau plant. Llun: Cyngor BCP/ Mark Holloway

6. Gwneud parciau a manau gwyrdd yn achos poblogaidd

- Sut allwch chi ddenu a chadw cyllid dyngarol sylweddol ac incwm grant?
- Gweithredu: creu'r gallu i weithredu gyda phwrpas elusennol, neu mewn partneriaeth â'r sector menter gymunedol a chymdeithasol wirfoddol.

7. Bod yn entrepreneuriaidd yn gymdeithasol

- Sut allwch chi optimeiddio cynhyrchu incwm a rhoi hwb i swyddi drwy weithgaredd sydd o fudd i gymunedau?
- Gweithredu: gyda'ch cymunedau, busnesau lleol a mentrau cymdeithasol, archwilio a blaenoriaethu cynhyrchu incwm a chyfleoedd creu swyddi o brofiadau gwell o fannau gwyrdd.

8. Hyrwyddo manau gwyrdd fel isadeiledd naturiol gwerthfawr

- Sut allwch chi gyflwyno'r achos i fuddsoddi yn eich rhwydwaith gwyrdd/glas?
- Camau: cyfrifwch werth economaidd go iawn eich ystâd werdd (nid dim ond y gost cynnal a chadw neu'r incwm a gynhyrchir) i ddangos y gymhareb budd uchel i gost.

9. Datblygu ffynonellau newydd o fuddsoddiad

- Sut allwch chi ddenu ffynonellau newydd o fuddsoddiad hirdymor, pwrpasol ar gyfer eich manau gwyrdd?

- Gweithredu: archwilio eich potensial cyllid gwyrdd; Dechreuwch drwy sefydlu [banc cynefin](#).

10. Magu eich tîm gwyrdd a'ch 'teulu' ehangach

- Sut allwch chi sicrhau'r gallu a'r diben a rennir i ymateb i heriau a chyfleoedd yr 21ain ganrif?
- Gweithredu: buddsoddi yn eich timau i feithrin sgiliau, hyder a chapasiti staff a gwirfoddolwyr. Tarwch i mewn i'r arweinyddiaeth a'r potensial ar draws eich cyngor a'ch rhwydwaith dinas ehangach.

Ewch i [wefan FPA](#) am fwy fyth o adnoddau i gefnogi eich gwaith gyda threftadaeth naturiol.

Gwaddol y rhaglen

Datblygodd y prosiectau a arianwyd gennym trwy FPA ffyrdd newydd o feddwl am fannau gwyrdd a chynllunio ar gyfer manau gwyrdd fel rhwydweithiau naturiol, gan gefnogi ystod o nodau iechyd cyhoeddus, llesiant a gwydnwch yn yr hinsawdd.

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Yr hyn sy'n amlwg o'r gynhadledd a'r rhaglen FPA gyfan yw ein bod i gyd yn teimlo'n angerddol am ein parciau a'n manau gwyrdd ac yn mynd ati i chwilio am ffyrdd i atgyfnerthu'r manteision enfawr y gwnaeth ein hamgylchedd naturiol lleol ddod â ni i gyd yn ystod y pandemig.

"Daeth rhaglen Sbarduno Parciau'r Dyfodol / Future Parks Accelerator â phartneriaeth gyfoethog o'r rhai oedd ar flaen y gad o ran rheoli manau gwyrdd at ei gilydd i ddarparu syniadau, ysbrydoliaeth ac anogaeth newydd. Mae yna gyfoeth o brofiad ac enghreifftiau cadarnhaol ac ysbrydoledig i rannu a dysgu ohonynt, gan ddangos gwerth buddsoddi yn ein manau gwyrdd ac ystyried ffyrdd arloesol o barhau â'r buddsoddiad hwnnw i greu tirwedd leol sy'n ffynnu'n naturiol i bawb ei fwynhau."

Cynhaliodd Hilary McGrady, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sesiynau cyntaf cynhadledd FPA. Dywedodd: "Mae dros 80% o'n poblogaeth yn byw mewn dinasoedd, felly mae diogelu a gwella ein parciau trefol a'n lleoedd naturiol yn hanfodol. Mae Sbarduno Parciau'r Dyfodol / Future Parks Accelerator wedi gwneud gwaith gwych i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y manau gwyrdd trefol hyn, ac rwyf wrth fy modd bod cynifer o sefydliadau ac awdurdodau blaenllaw wedi gallu dod at ei gilydd yn y gynhadledd i rannu eu syniadau a'u straeon llwyddiant am sut i wireddu'r weledigaeth hon."

Mae ein [gwerthusiad o'r rhaglen](#) yn rhoi tystiolaeth sylweddol o bwysigrwydd manau gwyrdd, gwerth cymunedol y lleoedd hynny a'u buddion ecolegol.

Buddsoddi mewn prosiectau natur

Roedd FPA yn bartneriaeth rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad gwerth £14 miliwn. Roedd yr Adran Levelling Up Tai a Chymunedau (DLUHC) hefyd yn darparu £1.2m mewn cymorth ariannol.

Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi ymrwymo i ddiogelu a chadw ein treftadaeth naturiol a chefnogi iechyd a llesiant pobl trwy ymgysylltu ag ystod amrywiol o fannau gwyrdd cyhoeddus.

Dysgwch sut y gallwch gael [cyllid ar gyfer prosiect gofod gwyrdd trefol](#).

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

[Wildflower meadow in Queen's Park. Picture © BCP Council/ Mark Holloway.](#)

[How our pioneering programme showed what a vital public resource parks are](#)

[Children taking part in activities next to the River Eden](#)

[£15.6million funding boost for natural heritage across the UK](#)

Pobl yn tirlunio yn yr Ardd Japaneaidd yn Cowden, yr Alban.

Tirweddau, parciau a natur